

Adolygiad o gynllun a
model asesu'r Dystysgrif Her
Sgiliau,
a'i lle o fewn Bagloriaeth
Cymru
Crynodeb Gweithredol

Ebrill 2018

Wavehill Ltd.

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 217 Paintworks, Arnos Vale, Bristol, BS4 3AH

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: info@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Mwy o wybodaeth:

www.wavehill.com

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill Ltd. Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill Ltd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron:

Dr Andrew Engeli, Wavehill
Dr Caroline Daly, Coleg Prifysgol Llundain
Cherry Davidson, Ymgynghorydd

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn at Andrew Engeli (andrew.engeli@wavehill.com) yn y lle cyntaf.

Dyddiad y ddogfen: 26 Mawrth 2018
Fersiwn: Terfynol

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cymwysterau Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Kerry Jones, Uwch Swyddog Ymchwil
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Pencarn Lane
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR
Ffôn: 01633 373222
E-bost: research@qualificationswales.or

Crynodeb Gweithredol

1. Ym mis Ionawr 2017, comisiynwyd Wavehill Ltd a Dr Caroline Daly o Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain gan Cymwysterau Cymru i gynnal adolygiad o gynllun a model asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau (y Dystysgrif) a'i lle o fewn fframwaith Bagloriaeth Cymru (y Fagloriaeth).
2. Yn 2015, cyflwynwyd y Fagloriaeth ar ei newydd wedd. Fframwaith o gymwysterau sy'n paratoi dysgwyr rhwng 14 ac 19 oed ar gyfer cyflogadwyedd ac addysg bellach ac uwch yw'r Fagloriaeth. Ceir pedair ffurf ar y Fagloriaeth, a hynny ar dair lefel wahanol. Tystysgrif Her Sgiliau, sef cymhwyster newydd ac arloesol sy'n seiliedig ar sgiliau, sydd wrth wraidd pob Bagloriaeth.
3. Ceir pedwar cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau, sef un ar gyfer pob Bagloriaeth. Mae pob Tystysgrif yn dilyn strwythur cyffredin, sy'n cynnwys pedair elfen: y Project Unigol, yr Her Menter a Chyflogadwyedd, yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a Her y Gymuned. Gyda'i gilydd, nod y pedair elfen yw galluogi dysgwyr i feithrin saith sgil sydd eu hangen ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd. Y saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd yw'r enw ar y rhain.
4. Roedd ein gwaith yn cynnwys adolygiad desg o'r deunyddiau craidd sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Dystysgrif, yn ogystal ag adolygiad cychwynnol Cymwysterau Cymru o'r broses o gyflwyno'r Dystysgrif a'r Fagloriaeth (2016). Ochr yn ochr â'r adolygiad desg, cynhaliodd Wavehill grwpiau ffocws gyda dysgwyr o sampl o ysgolion a cholegau (canolfannau) Addysg Bellach (AB) ledled Cymru, yn ogystal â chyfweliadau ag athrawon, darlithwyr a chydgyfylltwyr y Fagloriaeth.

Canfyddiadau'r adolygiad desg

5. Roedd yr adolygiad desg yn canolbwyntio ar gynllun a model asesu cymwysterau'r Dystysgrif a'u lle o fewn y Fagloriaeth. Mae'n bwysig nodi bod unrhyw ddadansoddiad annibynnol o gynllun cymhwyster yn debygol o nodi agweddau y gellid eu gwella. Roedd hynny'n fwy tebygol yn achos yr adolygiad hwn, a oedd yn edrych ar gynllun cymhwyster newydd ac arloesol sy'n seiliedig ar sgiliau (y Dystysgrif), a'i lle o fewn fframwaith (y Fagloriaeth) o gymwysterau.
6. Nododd yr adolygiad desg ddwy her sylfaenol sy'n effeithio ar gydlynid cyffredinol y Dystysgrif:
 - a. Cynllunio'r gwaith o asesu sgiliau drwy brofiadau 'dysgu o'r byd go iawn' – Cynlluniwyd y Dystysgrif i gael ei chyflwyno ochr yn ochr â'r cwricwlwm ehangach gyda'r bwriad o sicrhau y byddai dysgwyr yn meithrin y saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd ym mhob un o feysydd eu hastudiaethau. Wedyn, byddai'r rhain yn cael eu hasesu drwy elfennau'r Dystysgrif. Mae hon yn broses

gymhleth i'w rheoli ac mae angen cydgysylltu'r cwricwlwm yn helaeth o fewn canolfannau, ac mae'n bosibl bod rhai heb sylweddoli maint y dasg.

- b. Gwybodaeth arbenigol neu generig – Gall y ffaith nad oes athrawon arbenigol ar gyfer y Dystysgrif, ynghyd â'r ffaith bod y saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd yn cael eu cyflwyno fel sgiliau y mae'n hawdd eu meithrin a'u hasesu, danseilio gwerth canfyddedig cymwysterau'r Dystysgrif o gymharu â chymwysterau eraill.

- 7. Yn ogystal â'r heriau sylfaenol hyn, mae'r adroddiad yn adolygu diben, strwythur, cynnwys, model asesu a model graddio'r Dystysgrif.

8. Diben

Mae gan y Fagloriaeth, y Dystysgrif a phob un o elfennau'r Dystysgrif (h.y. y Project Unigol a'r tair Her) weledigaeth a diben clir. Ceir bwriad clir i ddysgwyr gael profiad o wahanol fathau o ddysgu a chael mwy o lais o ran yr hyn y maent yn ei astudio a sut. Mae'r Heriau a'r Project Unigol yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau hynod berthnasol o fewn cyd-destunau go iawn sy'n berthnasol i'w hanghenion o ran astudio a chyflogaeth yn y dyfodol.

9. Strwythur

Mae cynllun y Dystysgrif yn gymhleth. Ceir pedair ffurf ar y Dystysgrif (h.y. CA4, Sylfaen Ôl-16, Cenedlaethol Ôl-16 ac Uwch) sy'n cwmpasu dysgu rhwng 14 ac 19 oed. Mae pob ffurf ar y Dystysgrif yn meithrin ac asesu'r un saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd mewn ffordd debyg. O ganlyniad i hynny, ceir rhywfaint o ailadrodd o ran cynnwys, deilliannau dysgu, dulliau asesu a meini prawf asesu ym mhob ffurf. Mae hyn yn arwain at ddiffyg eglurder ynglŷn â dilyniant.

10. Cynnwys

Mae cynnwys y Dystysgrif yn hynod berthnasol i'r sgiliau y mae angen eu meithrin. Mae pob Her wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion 'byd go iawn' a chael ei chynnal o fewn gwaith go iawn a chyd-destunau cymunedol. Fodd bynnag, codir cwestiynau ynghylch pa mor gyson yw sgiliau penodol â phob Her.

Hefyd, ceir ailadrodd o fewn pedair elfen y Dystysgrif. Er bod gan bob elfen ddiben clir fel elfen ar wahân, nid yw'n glir beth yw manteision astudio pob un o'r tair Her, yn hytrach nag astudio un neu ddwy ohonynt mewn ffordd fwy cyfunol â ffocws mwy pendant.

11. Asesu

Caiff y model asesu ei ddefnyddio mewn sawl ffordd, sydd wedi arwain at strwythurau asesu cymhleth. Caiff pob un o'r saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd ei asesu i raddau gwahanol, gyda rhai'n cael eu gor-asesu.

Nid yw'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu bob amser yn gyson â'i gilydd, ac nid yw'r meini prawf asesu yn ddigon penodol. O ganlyniad i hynny, nid yw bob amser yn glir sut i wahaniaethu rhwng bandiau perfformiad wrth asesu gwaith dysgwyr.

12. Graddio a dyfarnu

Mae'r iaith a ddefnyddir yn y model graddio yn ddryslyd. Ceir diffyg cydlynid rhwng y graddau a ddyfernir i bob elfen o'r Dystysgrif a'r radd derfynol a ddyfernir i gymhwyster y Dystysgrif.

[Canfyddiadau o'r broses o ymgysylltu â dysgwyr ac athrawon](#)

13. Cynlluniwyd yr ymchwil maes i gasglu barn dysgwyr ac athrawon am eu profiadau o'r Dystysgrif. Daeth pedair thema lefel uchel i'r amlwg o'r gwaith maes: dealltwriaeth o'r Dystysgrif a'r Fagloriaeth, profiad o'r Dystysgrif, sgiliau a gafodd eu meithrin drwy'r Dystysgrif a chymorth gan athrawon, teulu a'r gymuned.

14. Dealltwriaeth dysgwyr ac athrawon o'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru

Ar y cyfan, roedd athrawon a gyfwelwyd o'r farn bod ganddynt ddealltwriaeth dda o gynllun y Dystysgrif a'r Fagloriaeth. Fodd bynnag, gwnaethant nodi bod eu hesbonio i ddysgwyr, athrawon eraill a rhieni yn heriol, a'u bod o'r farn nad oedd athrawon nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw, nac uwch reolwyr mewn rhai achosion, bob amser yn eu deall.

Roedd nifer o ddysgwyr yn y grwpiau ffocws o'r farn nad oeddent yn deall y Dystysgrif yn llawn. Yn benodol, gwelwyd dryswch ymhlith dysgwyr ynglŷn â'r ffordd y caiff y Dystysgrif ei hasesu, gan gynnwys sut y caiff y meini prawf asesu eu cymhwyso at eu gwaith, sut y caiff pob elfen ei graddio a sut mae'r marciau ar gyfer pob elfen o'r Dystysgrif yn cyfrannu at eu gradd gyffredinol.

Dywedodd athrawon nad yw'r ddogfennaeth i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Dystysgrif bob amser yn glir nac yn gyson, gan arwain at anawsterau wrth ei rhoi ar waith. Hefyd, cyfeiriodd llawer o ddysgwyr at yr hyn roeddent yn ei weld fel diffyg gwybodaeth a negeseuon cyson am y Dystysgrif.

15. Profiad dysgwyr ac athrawon o'r Dystysgrif Her Sgiliau

Nododd dysgwyr ac athrawon lawer o elfennau o'r Dystysgrif sy'n rhoi boddhad. Cafwyd llawer o achosion lle dywedodd dysgwyr wrthym eu bod wedi mwynhau agweddau penodol ar y Dystysgrif, fel mynd allan i'r gymuned neu ddysgu sgiliau busnes. Gwnaeth

llawer o athrawon sylwadau ar lwyddiant dysgwyr unigol a oedd wedi rhagori yn eu gwaith, yn enwedig mewn meysydd a oedd yn heriol iddynt.

Dyweddodd llawer o athrawon a gyfwelwyd eu bod yn mwynhau cyflwyno'r Dystysgrif a'i bod yn rhoi boddhad proffesiynol iddynt. Roedd pob un ohonynt yn teimlo'n gadarnhaol am egwyddorion y Dystysgrif, gan ddweud ei bod yn cyflawni ei diben diffiniedig i ryw raddau, ond roedd llawer o'r farn bod angen ei mireinio a'i symleiddio er mwyn ei gwneud yn gliriach ac yn haws ei thrin. Dywedodd nifer ohonynt nad yw bob amser yn glir sut yr adeileddir ar y sgiliau drwy bob un o elfennau'r Dystysgrif, a bod gormod o ailadrodd rhwng pob un o elfennau, a lefelau, y Dystysgrif. Awgrymodd llawer o ddysgwyr, er bod angen cryn dipyn o amser i gwblhau'r Dystysgrif, bod lefel yr her yn briodol.

Dyweddodd llawer o athrawon eu bod yn wynebu heriau wrth asesu gwaith dysgwyr am fod y model asesu yn gymhleth. Roeddent o'r farn bod y meini prawf asesu yn rhy generig ac nad ydynt yn ddigon eglur na manwl. Hefyd, roedd y mwyafrif o'r farn bod gormod o waith asesu, gan ddweud eu bod yn treulio cyfnod anghymesur o amser yn asesu ac yn safoni gwaith dysgwyr.

Roedd yr holl athrawon a gyfwelwyd yn teimlo'n gadarnhaol am y cyfleoedd i rannu arbenigedd a chefnogi ei gilydd ond gwnaethant nodi bod angen mwy o gymorth parhaus i athrawon a chanolfannau.

16. Sgiliau a gaiff eu meithrin drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau

Nododd dysgwyr ac athrawon ddilyniant pendant yn yr hyn a ddysgir drwy'r Dystysgrif nad yw ar gael mewn pynciau eraill, er enghraifft sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol, siarad cyhoeddus, sgiliau arwain a sgiliau ariannol. Mae'r rhain yn cynrychioli cynnydd gwirioneddol i lawer o ddysgwyr, ac yn adlewyrchu gweledigaeth a diben y Dystysgrif.

Roedd y rhan fwyaf o'r athrawon a gyfwelwyd yn credu bod y saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd sydd wedi'u hymgorffori yn y Dystysgrif yn paratoi'r dysgwyr yn dda ar gyfer byd gwaith ac addysg bellach neu uwch.

17. Cymorth gan athrawon, teulu a'r gymuned

Un o nodweddion y Dystysgrif, yn enwedig y Project Unigol, yw ei bod yn annog dysgu annibynnol. Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd dysgwyr eu bod yn gallu dod o hyd i arweiniad a chymorth gan athrawon a'u bod yn teimlo eu bod wedi meithrin sgiliau drwy gael gafael ar y cymorth hwn ar gyfer eu gwaith. Fodd bynnag, roedd dysgwyr eraill o'r farn nad oeddent wedi cael digon o arweiniad, neu gwnaethant nodi nad oeddent wedi llwyddo i ddod o hyd i athrawon sy'n arbenigo yn eu dewis faes pwnc.

Nid yw'n ymddangos bod lefel arbennig o uchel na nodedig o drafodaeth ynglŷn â'r Dystysgrif rhwng dysgwyr a'u teuluoedd, a dywedodd dysgwyr nad yw eu teuluoedd yn gwybod llawer am y Dystysgrif.

Dyweddod llawer o athrawon fod ganddynt gysylltiadau da iawn â chyflogwyr lleol. Fodd bynnag, mae lle o hyd i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach er mwyn helpu i gyflwyno'r Dystysgrif.

18. Mae'n bwysig nodi bod y cyfranogwyr yn y gwaith maes yn cynrychioli sampl o'r holl athrawon a dysgwyr sy'n addysgu neu'n astudio'r Dystysgrif ar hyn o bryd. Dim ond am eu profiad o'r Dystysgrif, a'i lle o fewn fframwaith y Fagloriaeth, y cafodd y cyfranogwyr eu holi, ac ni chawsant eu holi am eu profiad o gymwysterau eraill. Felly, nid oes modd dod i gasgliadau am gymwysterau eraill.

Argymhellion

Mae'r adolygiad desg a'r gwaith o ymgysylltu ag athrawon a dysgwyr yn cadarnhau bod egwyddorion y Fagloriaeth a'r Dystysgrif yn gadarn ac yn berthnasol, a bod dysgwyr yn meithrin sgiliau sydd o fudd i'w dyfodol. O ganlyniad i hynny, rydym yn cynghori'n gryf y dylid cadw'r Dystysgrif a'i diwygio er mwyn adeiladu ar ei chryfderau a'i gwneud yn llai cymhleth.

Byddai ystyried egwyddorion cysondeb adeiladol neu 'constructive alignment' (Biggs, 2003) o fudd i'r gwaith o gynllunio cwricwlwm a dulliau asesu'r Dystysgrif. Mae a wnelo cysondeb adeiladol â sicrhau bod y deilliannau dysgu a ddymunir mewn rhaglen yn glir ac yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a'r dulliau asesu. Y nod yw ffurfio cydberthynas gwbl gydlynol rhwng yr hyn a gaiff ei ddysgu, sut y caiff ei ddysgu a sut y caiff ei asesu.

Gwnawn gyfres o wyth argymhelliad er mwyn helpu rhanddeiliaid i ddatblygu'r Dystysgrif yn y dyfodol.

Argymhelliad 1: Cymwysterau Cymru i sefydlu proses ar gyfer adolygu argymhellion yr adroddiad fel bod unrhyw ddatblygiadau'n cael eu rhoi ar waith mewn modd ystyriol ac amserol ac yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Rhaid i unrhyw ddatblygiadau gael eu cyfleu mewn ffordd glir, cynhwysfawr a chyson.

Argymhelliad 2: Cymwysterau Cymru, CBAC a Llywodraeth Cymru i adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am y Dystysgrif a'r Fagloriaeth er mwyn sicrhau ei bod yn glir, yn gyson ac yn hygyrch. Dylai'r adolygiad gynnwys y canlynol:

- a. yr egwyddorion cynllunio rheoleiddiol, manylebau cymwysterau, llawlyfr cyflwyno, llawlyfr gweinyddu a chod ymarfer;
- b. sut y gellir teilwra gwybodaeth am y Dystysgrif a'r Fagloriaeth yn fwy effeithiol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd.

Argymhelliad 3: Cymwysterau Cymru, drwy weithio gyda rhanddeiliaid, i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r Dystysgrif a'r Fagloriaeth ymhlith athrawon, uwch arweinwyr a staff cymorth.

Argymhelliad 4: CBAC, gyda chymorth gan Cymwysterau Cymru, i barhau i gynnig Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a hyfforddiant i bob aelod o staff sy'n ymwneud â'r gwaith o gyflwyno'r Dystysgrif.

Argymhelliad 5: Llywodraeth Cymru i ystyried p'un a allai addysg gychwynol i athrawon helpu i baratoi athrawon ar gyfer meithrin ac asesu'r sgiliau sydd wedi'u cynnwys yn y Dystysgrif.

Argymhelliad 6: Cymwysterau Cymru i adolygu cynllun y Dystysgrif, gan gynnwys ei strwythur a'i chynnwys. Dylai hyn ystyried egwyddorion Cysondeb Adeiladol a chynnwys y canlynol:

- a. Adolygu'r angen am dair Her sydd ag Amcanion Dysgu sy'n gorgyffwrdd, ochr yn ochr â'r Project Unigol. Os yw'n briodol, nodi ble y gellid lleihau nifer yr Heriau drwy ddadansoddi'r synergeddau rhyngddynt. Er enghraifft, gallai Cymwysterau Cymru ystyried:
 - i. cael gwared ar Her y Gymuned ac ailddyrrannu'r sgiliau 'Cynllunio a Threfnu' ac 'Effeithiolrwydd Personol' i'r Her Menter a Chyflogadwyedd lle maent yn cefnogi'r nodau dysgu yn glir;
 - ii. i ba raddau y gallai nodau'r Heriau a'r sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd gael eu cynnwys a'u hasesu yn y Project Unigol.
- b. Ystyried yr achos dros gyflwyno un cymhwyster Tystysgrif ar gyfer myfyrwyr ôl-16 sy'n cwmpasu lefelau Sylfaen a Chenedlaethol.
- c. Adolygu p'un a ddylid parhau i asesu llythrennedd a rhifedd yn y Dystysgrif ar lefel ôl-16.
- ch. Adolygu'r ODA a'r pwysoliad a briodolir i bob elfen.
- d. Adolygu'r enghreifftiau o Heriau penodol a gynigir yn y Manylebau ar lefelau Sylfaen a Chenedlaethol CA4 ac Ôl-16 er mwyn sicrhau mwy o gysondeb a chyfleoedd cliriach am ddilyniant.
- dd. Ystyried y cyfleoedd i asesu llythrennedd Digidol yn fwy. Er enghraifft, fel rhan o 'ddulliau codi ymwybyddiaeth' o fewn yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang.
- e. Ystyried sut y gellid gwella'r Project Unigol ymhellach, er enghraifft drwy wneud y canlynol:
 - i. diwygio nifer y geiriau yn yr adroddiad ysgrifenedig a diben yr arteffact;
 - ii. ystyried y potensial i gynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau llythrennedd Digidol;
 - iii. ystyried cyfleoedd i asesu sgiliau Creadigrwydd ac Arloesedd;
 - iv. ystyried sut y gellid ei integreiddio'n well yn y cwricwlwm.

Argymhelliad 7: CBAC i ystyried sut y gellid gwneud y model asesu a graddio'n gliriach ar gyfer yr Heriau a'r Project Unigol ar bob lefel. Dylai hyn gynnwys:

- a. Adolygu'r meini prawf asesu er mwyn ystyried:
 - i. sut mae'r meini prawf asesu yn cyd-fynd â'r amcanion dysgu;
 - ii. datblygu meini prawf asesu cliriach, o ansawdd gwell;
 - iii. cyflwyno nodweddion cyson yn y meini prawf sy'n cynnig dangosyddion cyrhaeddiad cyffredin ar lefelau Sylfaen a Chenedlaethol;
 - iv. ad-drefnu'r setiau gor-gymhleth o farciau, bandiau, graddau a lefelau a chyflwyno un set o feini prawf y gellir eu cymhwysu ar gyfer pob dysgwr ar lefelau Sylfaen a Chenedlaethol, wedi'u modelu ar y matrices CA4 presennol.

- b. Adolygu ffyrdd y gellir gwneud y model asesu'n fwy tryloyw fel bod dysgwyr yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer pob band perfformiad.
- c. Ystyried sut y gellir asesu gwaith grŵp o fewn yr Heriau mewn modd mwy dibynadwy.

Argymhelliad 8: Cymwysterau Cymru i adolygu fframwaith y Fagloriaeth er mwyn:

- a. Ystyried dichonoldeb y Dystysgrif (neu elfennau diwygiedig y Dystysgrif) fel cymhwyster ar wahân, yn annibynnol ar y Fagloriaeth.
- b. Ystyried p'un a ddylai'r Fagloriaeth barhau fel dyfarniad cyfansawdd.